

Canllawiau Ymarferol Integreiddio Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Cynhwysol y Cyngor yr Athro Peirianeg i mewn i Gwricwlwm Peirianeg Addysg Uwch

Anne Nortcliffe and Crystal Nwagboso

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad i'r Canllawiau Ymarferol	5
Cefndir a Datblygiad	5
Cafodd y Pecyn Cymorth EDGE ei ymchwilio, ei ddylunio a'i ddatblygu mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Canterbury Christ Church (CCCU), Peirianwyr Cyfartal ac Academi Frenhinol Peirianeg. Er ei fod wedi'i ddylunio er budd pob myfyriwr, mae wedi'i fwriadu'n arbennig ar gyfer mwyn mynd i'r afael gydag anghysondebau mewn deilliannau graddedigion ar gyfer myfyrwyr benywaidd, Asiaidd, Du, anabl ac o statws cymdeithasol economaidd isel. Drwy dargedu'r anghyfartaleddau yma, mae'r Pecyn Cymorth o fudd i'r gweithlu peirianeg ehangach drwy hyrwyddo cynhwysiant a thegwch.....	5
Esblygiad i'r Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Cynhwysol.....	5
Strwythur y Canllaw hwn	6
Cyflwyniad i'r Pecyn Cymorth	7
Llyfrgell Astudiaethau Achos	8
Traweffaith Addysg y Pecyn Cymorth	8
Casgliad	10
Astudiaethau Achos	12
Dy Stori, Dy Ddyfodol	12
Astudiaeth Achos o'r Sesiwn	12
Pecyn Cymorth Profi'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr.....	14
Astudiaeth Achos o'r Sesiwn	14
Cyflwyno Sgiliau Adfyfrio	16
Astudiaeth Achos o'r Sesiwn	16
Cyflwyno Sgiliau Adfyfrio Prentisiaethau Gradd.....	18
Astudiaeth Achos o'r Sesiwn	18
Datblygu Defnydd Myfyrwyr 2il Flwyddyn o'r Pecyn Cymorth	20
Astudiaeth Achos o'r Sesiwn	20
Pecyn Cymorth ar y cyd gyda'r Prosiect Capstone Lefel 5.....	22
Astudiaeth Achos o'r Sesiwn	22
Ceisiadau Graddedigion.....	24
Astudiaeth Achos o'r Sesiwn	24
Bod yn Gynghreiriad Graddedig yn y Gweithle	26

Astudiaeth Achos o'r Sesiwn	26
Cynlluniau'r Sesiwn.....	28
Cynllun y Sesiwn: Dy Stori, Dy Ddyfodol	28
Cynulleidfa	28
Adnoddau.....	28
Diben	28
Strwythur y Sesiwn	28
Cynllun y Sesiwn: Pecyn Cymorth Profi'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr	30
Cynulleidfa	30
Adnoddau.....	30
Diben	30
Strwythur Sesiwn - Wythnos 1	30
Strwythur Sesiwn - Wythnos 2.....	31
Atodiad A.....	32
Cynllun y Sesiwn: Cyflwyno Sgiliau Adfyfrio	35
Cynulleidfa	35
Adnoddau.....	35
Diben	35
Strwythur y Sesiwn	35
Atodiad B.....	36
Cynllun y Sesiwn: Cyflwyno Sgiliau Adfyfrio Prentisiaethau Gradd	38
Cynulleidfa	38
Adnoddau.....	38
Diben	38
Strwythur y Sesiwn	38
Atodiad C	40
Cynllun y Sesiwn: Datblygu Defnydd Myfyrwyr 2il Flwyddyn o'r Pecyn Cymorth	41
Cynulleidfa	41
Adnoddau.....	41
Diben	41
Strwythur y Sesiwn	41
Cynllun y Sesiwn: Y Pecyn Cymorth ar y Cyd gyda Phrosiect Capstone Lefel 5	43

Cynulleidfa	43
Adnoddau.....	43
Diben	43
Strwythur y Sesiwn	43
Cynllun y Sesiwn: Ceisiadau gan Raddedigion	45
Cynulleidfa	45
Adnoddau.....	45
Diben	45
Strwythur y Sesiwn	45
Cynllun y Sesiwn: Bod yn Gynghreiriad Graddedig yn y Gweithle	47
Cynulleidfa	47
Adnoddau.....	47
Diben	47
Strwythur y Sesiwn	47
Cyflwyniad (5 munud).....	47
Atodiad D	49
Atodiad E.....	51

Cyflwyniad i'r Canllawiau Ymarferol

Amcan y Canllawiau Ymarferol yma yw bod yn ymarferol ac yn hyblyg. Mae'n cefnogi addysgwyr, cyflogwyr a myfyrwyr wrth fewnosod y **Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Cynhwysol (IET)** yn rhan o'r cwricwlwm peirianeg addysg uwch.

Cefndir a Datblygiad

Crëwyd y Pecyn Cymorth yn wreiddiol fel y Pecyn Cymorth Cyflogaeth Twf Datblygu Tegwch, wedi'i ariannu drwy **Gronfa Traweffaith Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant Cam 2 Academi Frenhinol Peirianeg**. Bwriad y prosiect hwn yw mynd i'r afael gydag anghyfartaleddau cyson yn neilliannau cyflogaeth graddedigion peirianeg drwy:

- Rymuso cyflogwyr a myfyrwyr er mwyn ddelio gyda heriau cyflogaeth yn well.
- Codi ymwybyddiaeth o gyflogadwyedd, Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) a bod yn gynghreiriol.
- Darparu unigolion gyda'r sgiliau i gyfrannu at weithleoedd mwy cynhwysol.
- Annog adfyfrio, twf a chyfranogiad gweithredol mewn mentrau EDI.

Cafodd y Pecyn Cymorth EDGE ei ymchwilio, ei ddylunio a'i ddatblygu mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Canterbury Christ Church (CCCU), Peirianwyr Cyfartal ac Academi Frenhinol Peirianeg. Er ei fod wedi'i ddylunio er budd pob myfyriwr, mae wedi'i fwriadu'n arbennig ar gyfer mwyn mynd i'r afael gydag anghysondebau mewn deilliannau graddedigion ar gyfer myfyrwyr benywaidd, Asiaidd, Du, anabl ac o statws cymdeithasol economaidd isel. Drwy dargedu'r anghyfartaleddau yma, mae'r Pecyn Cymorth o fudd i'r gweithlu peirianeg ehangach drwy hyrwyddo cynhwysiant a thegwch.

Esblygiad i'r Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Cynhwysol

Gydag arian gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg ac Academi Frenhinol Peirianeg o dan y Rhaglen Traweffaith Amrywiaeth, cafodd y Pecyn Cymorth ei ddatblygu ymhellach, ei ymestyn a'i integreiddio i mewn i lwyfan **Pecyn Cymorth Cyngor Athrawon Peirianeg (EPC)**. Mae hyn wedi galluogi i'r adnodd gael ei ddatblygu ymhellach a'i fudo i lwyfan mynediad agored, gan sicrhau ei fod ar gael yn hawdd i fyfyrwyr, addysgwyr a chyflogwyr ar draws y gymuned addysg uwch peirianeg.

Yn dilyn hyn, cafodd y **Pecyn Cymorth Cyflogaeth Gynhwysol** ei ymchwilio, ei ddylunio a'i ddatblygu mewn partneriaeth gyda **Phrifysgol Canterbury Christ Church (CCCU)**, **Prifysgol Wreccsam, Peirianwyr Cyfartal ac Academi Frenhinol Peirianeg**.

Bu i'r cam gwaith hwn fireinio addysgeg a thacsonomeg y Pecyn Cymorth, gan ei uno fel adnodd dysgu cynhwysfawr sy'n:

- Gwella enillion cymdeithasol, cyflogadwyedd ac ymwybyddiaeth EDI ymysg myfyrwyr a chyflogwyr.
- Cefnogi addysgwyr peirianeg er mwyn iddynt fewnosod egwyddorion EDI i mewn i'r cwricwla.
- Darparu canllawiau strwythuredig ar gyfer dysgu, ymgysylltu gyda chyflogwyr a datblygu gyrfa.

Strwythur y Canllaw hwn

Mae'r Canllaw Ymarferol hwn wedi'i drefnu yn dair prif ran:

1. Rhagair (yr adran hon)

- Mae'n darparu cefndir ar ddatblygiad a phwrrpas y Pecyn Cymorth.
- Mae'n amlinellu ei werth addysgol, ei seiliau damcaniaethol a thraweffaith ar ddysgu myfyrwyr.
- Mae'n cyflwyno'r astudiaethau achos a chynlluniau sesiynau fel adnoddau ymarferol.

2. Astudiaethau Achos

- Arddangos sut mae'r Pecyn Cymorth wedi'i gymhwyso mewn lleoliadau addysgol a phroffesiynol.
- Dal profiadau dilys staff a myfyrwyr.
- Tynnu sylw at y posibilrwydd o addasu'r Pecyn Cymorth ar draws lefelau, disgyblaethau a chyd-destunau.

3. Cynlluniau'r Sesiwn

- Darparu arweiniad cam wrth gam ynghylch gweithgareddau penodol y Pecyn Cymorth.
- Cynnwys manylion ymarferol megis amseru, adnoddau strwythur y grŵp a dulliau adfyfrio.

- Maent yn addas ar gyfer dysgu yn y dosbarth a gweithdai allgwrwlaidd.

Dull Awgrymedig ar gyfer Addysgwyr

- **Dechrau drwy wneud y pethau bychain:** Dewiswch un cynllun sesiwn sy'n alinio gyda'ch nodau dysgu a'i beilota mewn modiwl neu weithdy.
- **Myfyrio ac addasu:** Defnyddio awgrymiadau adfyfrio ac adborth myfyrwyr er mwyn teilwra'r gweithgaredd i'ch cyd-destun eich hun.
- **Datblygu:** Unwaith mae'n gyfarwydd, cyfunwch weithgareddau neu eu mewnosod yn ehangach ar draws modiwlau neu gwricwla ar lefel rhaglen.
- **Ar gyfer cyflogwyr:** Lle bynnag y mae'n bosib, gwahoddwch gyflogwyr i gyfranogi, gan feithrin mentora o'r ddwy ochr a chryfhau cysylltiadau cyflogadwyedd.

Drwy ddilyn y dull hwn, gall cyflogwyr fewnosod cyflogadwyedd cynhwysol i mewn i'w hymarfer dysgu, gan greu cyfleoedd ystyrlon i fyfyrwyr ddatblygu'r sgiliau, ymwybyddiaeth a hyder y maent eu hangen er mwyn ffynnu fel peirianwyr y dyfodol.

Cyflwyniad i'r Pecyn Cymorth

Mae'r Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Cynhwysol wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth gydag Academi Frenhinol Peirianeg, Peirianwyr Cyfartal, Cyngor Athrawon Peirianeg (EPC), Canterbury Christ Church University (CCCU) a Phrifysgol Wrecsama chafodd ei gefnogi gan yr Adran Gwyddoniaeth Arloesi a Thechnoleg ac Academi Frenhinol Peirianeg dan y Rhaglen Traweffaith Amrywiaeth.

Ei fwriad yw:

- Gwella buddion cymdeithasol, cyflogadwyedd ac ymwybyddiaeth EDI (tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant) ymysg myfyrwyr a chyflogwyr.
- Cefnogi addysgwyr wrth fewnosod egwyddorion EDI ar draws y cwricwla peirianeg, cyfrifiadura, dylunio a thechnoleg.
- Darparu arweiniad ar gyfer addysg, ymgysylltiad y cyflogwr, paratoi gyrfa a symud ymlaen i'r gweithle.

Mae'r Pecyn Cymorth yn tynnu ar fframweithiau sefydledig megis y **Graduate Capital Model** (Tomlinson, 2017) a chysyniadau dysgu enillion cymdeithasol **Social Capital Learning** (Brown et al., 2014), gan helpu i bontio bylchau mewn cyflogaeth ac adeiladu gweithlu mwy cynhwysol. Mae hefyd yn croesawu gwerth dysgu'n seiliedig ar gemau **Game Based Learning** (Wulansari et al., 2020), gan gynnwys gem gynghreirio

ryngweithiol sy'n meithrin empathi tuag at unigolion gyda nodweddion lleiafrifol, megis anabledau (Vichles et al., 2023).

Mae'r Pecyn Cymorth wedi ei ymchwilio, ei ddatblygu a'i ddylunio er mwyn arwain myfyrwyr, academyddion a staff proffesiynol wrth gymhwyso egwyddorion EDI. Ei bwrpas yw cefnogi amgylcheddau dysgu lle mae amrywiaeth yn ffynnu a lle mae pob llais yn cael ei werthfawrogi. Mae'n fwy na chymysg o adnoddau - mae'n cynrychioli ymrwymiad i ddysgu, adfyfrio a gweithredu parhaus.

Mae hefyd yn cynnwys astudiaethau achos a chynlluniau sesiynau sy'n dangos sut mae addysgwyr wedi integreiddio gweithgareddau Pecynnau Cymorth i mewn i'r cwricwlwm er mwyn atgyfnerthu dysgu cyflogadwyedd cynhwysol myfyrwyr.

Llyfrgell Astudiaethau Achos

Mae astudiaethau achos yn darparu enghreifftiau ymarferol sy'n gyfoethog o ran cyd-destun o ran cymhwyso egwyddorion EDI o fewn addysg peirianeg. Maent yn galluogi staff a myfyrwyr i ddyfnhau dealltwriaeth, gan adfyfrio'n feirniadol a thrawsnewid damcaniaeth yn ymarfer.

Mae'r llyfrgell astudiaethau achos yn tynnu sylw at:

- Sut mae addysgwyr wedi mewnosod gweithgareddau'r Pecyn Cymorth yn ymarfer dysgu.
- Tystiolaeth o sut mae myfyrwyr wedi ymgysylltu gyda'r Pecyn Cymorth er mwyn gwella eu dysgu.
- Traweffaith ar sgiliau cyflogadwyedd ac ymwybyddiaeth broffesiynol.
- Cynlluniau sesiwn wedi'u halinio gyda lefelau penodol o'r cwricwlwm peirianeg.

Yn seiliedig ar adborth gan fyfyrwyr a staff, mae'r astudiaethau achos yma'n dal profiadau dilys defnyddio'r Pecyn Cymorth. Maent yn darparu mewnwelediadau i gynllunio sesiynau, datblygu'r cwricwlwm ac ymarfer cynhwysol. Ar gyfer addysgwyr sy'n newydd i'r Pecyn Cymorth - neu rai sy'n ei deilwra i'w cyd-destun eu hunain - mae'r enghreifftiau hyn yn cynnig arweiniad ac ysbrydoliaeth.


Traweffaith Addysg y Pecyn Cymorth

Cafodd y Pecyn Cymorth ei beilota ym mhrifysgol **Canterbury Christ Church University (CCCU)** a Phrifysgol Wrecsam rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2025, gan gael ei ddarparu oddi mewn i fodiwlau a ddysgir ac yn rhan o weithdai allgyrsiol. Ar draws y cynllun peilot, bu i oddeutu **240 o fyfyrwyr** o'r flwyddyn sylfaen drwyddo i'r flwyddyn olaf gymryd rhan mewn sesiynau dysgu gan ddefnyddio'r Pecyn Cymorth.

Gwahoddwyd myfyrwyr i gwblhau arolygon a chyfranogi mewn cyfweiliadau dilynol, gan gynhyrchu mewnwelediadau gwerthfawr i draweffaith y pecyn cymorth ar eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol o ran cyflogadwyedd.

Roedd cynllun y gwaith ymchwil yn dilyn **methodoleg ymchwil weithredol Cohen (2017)** a derbyniodd gymeradwyaeth gan **Bwyllgor Moeseg Prifysgol Wrecsam**, gan sicrhau bod profiadau myfyrwyr a deilliannau dysgu dilys yn cael eu cofnodi'n drylwyr.

Gyda'i gilydd, cwblhaodd **53 o fyfyrwyr** yr arolwg ar draws prifysgol Canterbury Christ Church a Phrifysgol Wrecsam. Roedd ymatebwyr yn cynnwys **myfyrwyr rhyngwladol, myfyrwyr anabl a rhai oedd â chyfrifoldebau gofalu**. Mae eu hadborth (Ffigwr 1) yn arddangos **dylanwad cadarnhaol y Pecyn Cymorth** yn atgyfnerthu dysgu cyflogadwyedd a chodi ymwybyddiaeth o arferion proffesiynol cynhwysol.



Ffigwr 1: Ymatebion myfyrwyr i'r cwestiwn aml-adran: "*Mae gweithgaredd y Pecyn Cymorth wedi gwella fy nysgu er mwyn...*"

Amlygodd adborth myfyrwyr:

- Mwy o ymwybyddiaeth o amgylchiadau, galluedd a phrofiadau cyfoedion.
- Gwaith grŵp mwy ystyriol a chydweithredol.
- Gwella sgiliau bod yn amyneddgar, cyfathrebu a datrys problemau.

Er enghraifft:

"Mae wedi fy ngwella... Ro'n i'n arfer neidio'n syth i mewn i'r gwaith. Nawr rwy'n meddwl am y camau ac am y grŵp." - Myfyriwr Lefel 4 CCCU

"Fe wnaeth [gêm y Pecyn Cymorth] feithrin amynedd ynof fi... Ro'n i'n gallu rhoi mwy o amser i gydweithwyr, egluro pethau mewn mwy o fanylder a'u helpu yn lle dadlau." - Myfyriwr Lefel 4 CCCU

"Rwy'n dal i arfer gyda bod mewn prifysgol... Rwy'n meddwl llawer am bobl eraill, ac rwyf wastad yn ymwybodol o hyn gyda gwaith grŵp." - Myfyriwr Lefel 4 CCCU

Mae'r adborth hwn yn dangos sut mae'r Pecyn Cymorth yn adeiladu deinameg grŵp cryfach, yn cefnogi cydweithredu adeiladol ac yn paratoi myfyrwyr ar gyfer rolau yn y dyfodol fel peirianwyr, aelodau o dîm ac arweinwyr tîm.

Casgliad

Mae'r Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Cynhwysol yn gwella gallu'r myfyrwyr i:

- Fewnosod EDI o fewn sgiliau cyflogadwyedd.
- Arddangos a mynegi eu talent gyda pheirianeg.
- Deall amgylcheddau gwaith cymhleth.
- Cymhwyso egwyddorion cynhwysol drwy gydol eu hastudiaethau a'u gyrfaedd.

Drwy roi'r gallu i fyfyrwyr ac addysgwyr gysylltu cyflogadwyedd a chynhwysiant, mae'r Pecyn Cymorth yn cefnogi datblygu gweithlu peirianeg yn y dyfodol sydd â llawer o sgiliau, yn amrywiol, teg a chynhwysol.

Cyfeiriadau

- Brown, S., Street, D. a Martin, J.P., 2014. Gwelliant cymdeithasol myfyrwyr peirianeg o fewn amgylchedd dysgu rhyngweithiol. *International Journal of Engineering Education*, 30(4), tt.813-821.
- Cohen, L., Manion, L. a Morrison, K., 2017. *Research methods in education*. Routledge.
- Shawcross, J.K. a Ridgman, T.W., 2014. Lleoliadau tymor byr diwydiannol: Datblygu fframwaith yn seiliedig ar weithgaredd er mwyn cefnogi addysgu a dysgu. *Higher Education, Skills and Work-Based Learning*, 4(3).
- Tomlinson, M., 2017. Ffurfiâu o enillion graddedigion a'u perthynas gyda chyflogadwyedd graddedigion. *Education and Training*, 59(4), tt.338-352.
- Vilches Gonzalez, M.J., George, L., Miteva, L. a Singh, A., 2023, Ebrill. Developing Empathy towards Experiences of Invisible Disabilities Through Games. In *Proceedings of the 2nd Empathy-Centric Design Workshop* (tt. 1-8).
- Wulansari, O.D.E., Pirker, J., Kopf, J. a Guetl, C., 2020. Video games and their correlation to empathy: How to teach and experience empathic emotion. Yn *Proceedings of the 22nd International Conference on Interactive Collaborative Learning (ICL2019)–Cyfrol 1 22* (tt. 151-163). Springer International Publishing.

Astudiaethau Achos

Dy Stori, Dy Ddyfodol

Datblygwyd Gan: Yr Athro Anne Nortcliffe, Prifysgol Wreccsam

Astudiaeth Achos o'r Sesiwn

Cafodd y sesiwn ei hwyluso gan **Anne Nortcliffe** gyda charfan o fyfyrwyr peirianeg Blwyddyn Sylfaen. Bwriadwyd y sesiwn, oedd yn dwyn y teitl "*Dy Stori, Dy Ddyfodol*" i helpu myfyrwyr ddechrau archwilio eu taith personol i mewn i beirianeg, tra hefyd yn eu cyflwyno i sgiliau cyflogadwydd a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) allweddol gan ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Cyflogadwydd Cynhwysol.

Roedd y sesiwn yn cynnwys tri gweithgaredd sy'n cyd-gysylltu:

1. **Stori Peirianeg Personol** – Bu i'r myfyrwyr adfyfrio ar eu taith i mewn i beirianeg a gwylio fideos [Gweithgaredd D: Lleisiau Newid](#) sy'n cael eu harwain gan gyfoedion, gan adnabod gwersi allweddol ar gyfer eu twf personol a phroffesiynol eu hunain. Gan weithio gyda chyfoedion, dechreuodd myfyrwyr fynegi eu stori eu hunain a gosod camau gweithredu cychwynnol yn eu llyfrau cofnodi.
2. **Dyrchafu eich Proffil Digidol Proffesiynol** – Archwiliodd y myfyrwyr strategaethau ar gyfer adeiladu presenoldeb proffesiynol ar-lein gan ddefnyddio [Gweithgaredd F: Dyrchafu eich Proffil Digidol Proffesiynol](#). Myfyrwyr yn ystyried beth yw canfyddiad eu cyflogwyr o'u hól troed digidol ac adnabod camau gweithredu personol ar gyfer gwelliant.
3. **Codi Eich Proffil** – Myfyrwyr yn adolygu'n feirniadol a chyfnewid adborth cyfoedion ar broffiliau LinkedIn, cyn ehangu'r drafodaeth i rwydweithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. [Gweithgaredd G : Fe wnaeth Datgloi Grym Rhwydweithio](#), dynnu sylw at bwysigrwydd rhwydweithiau proffesiynol mewn datblygu gyrfa.

Deilliannau a Thraweffaith

Galluogodd y sesiwn i fyfyrwyr ar ddechrau eu taith beirianeg gydnabod pwysigrwydd hunaniaeth broffesiynol, presenoldeb digidol a rhwydweithio yn llunio eu gyrfaedd yn y dyfodol. Myfyrwyr:

- Aethant ati i fyfrio ar eu straeon unigol ac adnabod cryfderau personol a meysydd i'w datblygu.

- Cawsant sylwadau craff o'r straeon gan gyfoedion ([Gweithgaredd D: Lleisiau Newid](#)) wnaeth eu helpu i werthfawrogi eu gwybodaeth a'u sgiliau cynhwysol.
- Roeddent yn deall pwysigrwydd rheoli eu hunaniaeth broffesiynol ar-lein ([Gweithgaredd F: Dyrchafu eich Proffil Digidol Proffesiynol](#)).
- Aethant ati i ymarfer rhoi a derbyn adborth adeiladol ar broffiliau LinkedIn, gan gefnogi eu hyder digidol.
- Roeddent yn cydnabod bod rhwydweithio yn sgil cyflogadwyedd hanfodol gan ystyried sut i adeiladu perthnasoedd proffesiynol mewn ffordd weithredol.

Roedd y gweithgareddau hefyd yn annog myfyrwyr i gymryd perchnogaeth o'u taith gyflogadwyedd o ddechrau eu hastudiaethau, gan fewnosod ymarfer adfyfyriol drwy gofnodion llyfr log a chynllunio gweithredoedd.

Pecyn Cymorth Profi'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr

Datblygwyd Gan: Ellie Martin, Canterbury Christ Church University (CCCU)

Astudiaeth Achos o'r Sesiwn

Cafodd y sesiwn gyntaf ei hwyluso gan **Ellie Martin** gyda charfan o fyfyrwyr cyfrifiadura blwyddyn sylfaen a blwyddyn gyntaf. Cafodd myfyrwyr eu gwahodd i fabwysiadu rôl **profwyr sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr** y [Pecyn Cymorth Cynhwysol](#), gan weithio ar eu pen eu hunain i'w brofi a darparu adborth. Roedd y dull hwn yn galluogi myfyrwyr i ymgysylltu'n weithredol gyda'r Pecyn Cymorth, tra'n rhoi cyfle iddynt brofi ymarfer sy'n gysylltiedig gyda chyflogadwyedd sy'n gyffredin yn y diwydiant: rôl y **peiriannydd profi meddalwedd**.

Ochr yn ochr gyda phrofi'r Pecyn Cymorth, cwblhaodd myfyrwyr **lawlyfr adfyfyriol** papur (gweler [Atodiad A](#)), oedd yn darparu fframwaith i gefnogi adfyfyrio strwythuredig ar fideos y Pecyn Cymorth. Er mwyn ymgysylltu myfyrwyr ymhellach yn Semester 1, cyflwynodd Ellie Martin **greu gemau ('gamification')** drwy fersiwn cwis digidol o [Atodiad A](#) gan ddefnyddio Trwydded adnodd cwis ar gyfer prifysgol Canterbury Christ Church University. Roedd y dull hwn yn annog cyfranogiad, trafodaeth a datblygu ymarfer adfyfyriol yn gynnar.

Yn Semester 2, gofynnwyd i fyfyrwyr yn hytrach gwblhau'r gweithgaredd yn annibynnol, a thrwy hynny ddatblygu eu **sgiliau hunangyfeirio**. Yn eu hamser eu hunain, fe wnaeth y myfyrwyr archwilio'r [Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Cynhwysol](#) a [Gweithgareddau'r Pecyn Cymorth](#). Roedd y dull fesul cam hwn yn cefnogi symud ymlaen o adfyfyrio wedi'i strwythuro oedd yn cael ei arwain gan adfyfyrio i ymgysylltu'n annibynnol.

Roedd **yr ail sesiwn** yn ymestyn y dysgu drwy annog myfyrwyr i drafod y Pecyn Cymorth fel dosbarth. Aethant ati i adfyfyrio ar **negeseuon, themâu, a phethau roedden nhw wedi elwa ohonynt yn bersonol** o'r deunyddiau, gan archwilio beth roedd y Pecyn Cymorth wedi eu dysgu ynghylch gweithio gydag eraill a delio gyda deinameg grŵp.

Deilliannau a Thraweffaith

Tymor byr: Datblygodd y myfyrwyr sgiliau mewn ymarfer adfyfyriol, gan brofi adnoddau digidol, ac ymgysylltu'n feirniadol gydag adnoddau sydd â'u ffocws ar gyflogadwyedd.

Hirdymor: Roedd y gweithgaredd yn annog myfyrwyr i ystyried eu **cyfrifoldeb personol** wrth lunio eu taith cyflogadwyedd - nid yn unig *beth a pham* maen nhw'n dilyn eu trywydd o ran gyrfa, ond hefyd *sut* i wneud y teithiau hyn yn ystyrlon.

Roedd y garfan yn fawr (oddeutu 70 o fyfyrwyr) ac yn hynod o amrywiol o safbwynt ethnigrwydd, rhywedd, anabledd a chefnidir cymdeithasol-economaidd. Roedd yr adborth yn tynnu sylw at y ffaith bod y Pecyn Cymorth wedi cynorthwyo myfyrwyr i adfyfrio nid yn unig ar **eu dysgu eu hun**, ond hefyd profiadau eu **cyfoedion**.

Datgelodd cyfweiliadau gyda myfyrwyr cyfrifiadura blwyddyn gyntaf a myfyrwyr peirianeg (Lefel 4) rai gwelliannau mewn ymddygiadau gwaith grŵp:

"Mae wedi fy ngwella...[Yn flaenorol] doeddwn i ddim hyd yn oed yn meddwl am unrhyw gamau [wrth gwblhau gwaith cwrs/gwaith grŵp]. Ro'n i'n arfer neidio'n syth i mewn [iddo]... hyd yn oed yn ein gweithgaredd grŵp." - Myfyriwr A Lefel 4 CCCU

"Fe wnaeth [gêm y Pecyn Cymorth] feithrin eithaf dipyn o amynedd ynof fi... Ro'n i'n gallu rhoi mwy o amser [cyfoedion mewn gwaith grŵp], egluro pethau mewn manylder a'u helpu yn hytrach na dadlau dros y gwaith." — Myfyriwr B Lefel 4 CCCU

"Rwy'n dal i ddod i arfer [yn y brifysgol] gyda rhyngweithio mewn lleoliad grŵp... Rwy'n meddwl llawer mwy am bobl eraill... Rwy'n gyson yn ymwybodol [o hyn] gyda gwaith grŵp." — Myfyriwr C Lefel 4 CCCU

Cyflwyno Sgiliau Adfyfyrio

Datblygwyd Gan: Yr Athro Anne Nortcliffe, Prifysgol Wreccsam

Astudiaeth Achos o'r Sesiwn

Cafodd y sesiwn ei hwyluso gan **Anne Nortcliffe** gyda charfan o fyfyrwyr prentisiaeth gradd peirianeg blwyddyn gyntaf. Pwrpas y sesiwn oedd cyflwyno myfyrwyr i bwysigrwydd sgiliau, nodweddion cyflogadwyedd graddedigion, ac ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI). Cafodd y myfyrwyr eu hannog i ystyried y sgiliau allweddol mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt gyda graddedigion peirianeg, a sut y gellir datblygu'r rhain ar draws y gwahanol gyd-destunau o'u taith brentisiaeth, gan gynnwys eu gweithle, astudiaethau academiaidd a bywyd personol.

Bu i fyfyrwyr ymgysylltu gyda **Gweithgaredd J: Adfyfyrio a Thyfu** o'r Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd, wedi'i gefnogi gan y ffurflen Datblygiad Proffesiynol (PPD). Cafodd y ffurflen ei defnyddio fel fframwaith i ddogfennu adfyfyriadau ar eu twf personol a phroffesiynol, ac i ddal tystiolaeth gadarn (megis adborth asesiad, dysgu yn y gweithle neu gyflawniadau personol) oedd yn dangos eu datblygiad.

Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i alinio'n agos gyda **Nodau Rhaglenni Addysg Uwch Cyngor Peirianwyr Prydain (AHEP 4)** a **Manyleb y DU** (Safon y DU ar gyfer Cymhwysedd Peirianeg Broffesiynol), sy'n amlinellu'r safonau cymhwysedd a'r ymrwymiad sy'n ofynnol ar gyfer cofrestriad proffesiynol fel:

- Peiriannydd Siartredig (CEng)
- Peiriannydd Corfforedig (LEng)
- Technegydd Peirianyddol (EngTech)

Deilliannau a Thraweffaith

Roedd y sesiwn yn cefnogi myfyrwyr i ddechrau gweld eu hunain fel peirianwyr proffesiynol sy'n datblygu ac i roi mynegiant i'w dysgu fel rhan o ymarfer adfyfyriol. Roedd y ffurflen PPD yn helpu i strwythuro eu hadfyfyriadau drwy eu hannog i gysylltu profiadau ar draws nifer o wahanol gyd-destunau. Roedd myfyrwyr wedi adnabod yn gynnar:

- Sgiliau trosglwyddadwy peirianyddol, technegol a chynhwysiant allweddol yn cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr.
- Strategaethau ymarferol ar gyfer datblygu sgiliau cyflogadwyedd a sgiliau EDI yn ystod eu prentisiaeth gradd.
- Pwysigrwydd ymarfer adfyfyriol wrth atgyfnerthu eu hunaniaeth broffesiynol.

- Cydnabod eu cynnydd gyda AHEP 4 a chymwyseddau ac ymrwymiad Manyleb u DU i ddod yn beiriannydd proffesiynol.

Bu i'r gweithgaredd hefyd gyflwyno myfyrwyr i ddefnyddio dulliau cynllunio gweithredoedd ar gyfer adnabod meysydd ar gyfer datblygiad proffesiynol a chreu strategaethau i fynd i'r afael â hwy. Fe wnaeth hyn helpu i feithrin perchnogaeth o'u taith broffesiynol, tra'n mewnosod gwerthfawrogiad o gynhwysiant fel rhan o'u hunaniaeth fel darpar beirianwyr.

Cyflwyno Sgiliau Adfyfyrio Prentisiaethau Gradd

Datblygwyd Gan: Yr Athro Anne Nortcliffe, Prifysgol Wreccsam

Astudiaeth Achos o'r Sesiwn

Cafodd y sesiwn ei hwyluso gan **Anne Nortcliffe** gyda charfan o fyfyrwyr prentisiaeth gradd blwyddyn gyntaf. Pwrpas y sesiwn oedd cyflwyno myfyrwyr i bwysigrwydd sgiliau, nodweddion cyflogadwyedd graddedigion, ac ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI). Cafodd y myfyrwyr eu hannog i ystyried y sgiliau allweddol mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt gyda graddedigion peirianeg, a sut y gellir datblygu'r rhain ar draws y gwahanol gyd-destunau o'u taith brentisiaeth, gan gynnwys eu gweithle, astudiaethau academiaidd a bywyd personol.

Bu i fyfyrwyr ymgysylltu gyda Gweithgaredd J: Adfyfyrio a Thyfu o'r Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd, wedi'i gefnogi gan y ffurflen Datblygiad Proffesiynol (PPD). Cafodd y ffurflen ei defnyddio fel fframwaith i ddogfennu adfyfyriadau ar eu twf personol a phroffesiynol, ac i ddal tystiolaeth gadarn (megis adborth asesiad, dysgu yn y gweithle neu gyflawniadau personol) oedd yn dangos eu datblygiad.

Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i alinio'n agos gyda **Nodau Rhaglenni Addysg Uwch Cyngor Peirianwyr Prydain (AHEP 4)** a **Manyleb y DU** (Safon y DU ar gyfer Cymhwysedd Peirianeg Broffesiynol), sy'n amlinellu'r safonau cymhwysedd a'r ymrwymiad sy'n ofynnol ar gyfer cofrestriad proffesiynol fel:

- Peiriannydd Siartredig (CEng)
- Peiriannydd Corfforedig (IEng)
- Technegydd Peirianyddol (EngTech)

Deilliannau a Thraweffaith

Roedd y sesiwn yn cefnogi myfyrwyr i ddechrau gweld eu hunain fel peirianwyr proffesiynol sy'n datblygu ac i roi mynegiant i'w dysgu fel rhan o ymarfer adfyfyriol. Roedd y ffurflen PPD yn helpu i strwythuro eu hadfyfyriadau drwy eu hannog i gysylltu profiadau ar draws nifer o wahanol gyd-destunau. Roedd myfyrwyr wedi adnabod yn gynnar:

- Sgiliau trosglwyddadwy peirianyddol, technegol a chynhwysiant allweddol yn cael eu gwerthfawrogi gan gyflogwyr.
- Strategaethau ymarferol ar gyfer datblygu sgiliau cyflogadwyedd a sgiliau EDI yn ystod eu prentisiaeth gradd.
- Pwysigrwydd ymarfer adfyfyriol wrth atgyfnerthu eu hunaniaeth broffesiynol.

- Cydnabod eu cynnydd gyda AHEP 4 a chymwyseddau ac ymrwymiad Manyleb u DU i ddod yn beiriannydd proffesiynol.

Bu i'r gweithgaredd hefyd gyflwyno myfyrwyr i ddefnyddio dulliau cynllunio gweithredoedd ar gyfer adnabod meysydd ar gyfer datblygiad proffesiynol a chreu strategaethau i fynd i'r afael â hwy. Fe wnaeth hyn helpu i feithrin perchnogaeth o'u taith brentisiaeth broffesiynol, tra'n mewnosod gwerthfawrogiad o gynhwysiant yn rhan o'u hunaniaeth fel peirianwyr oedd yn ymarfer.

Datblygu Defnydd Myfyrwyr 2il Flwyddyn o'r [Pecyn Cymorth](#)

Datblygwyd Gan: Ellie Martin, Canterbury Christ Church University (CCCU)

Astudiaeth Achos o'r Sesiwn

Cafodd y sesiwn ei hwyluso gan **Ellie Martin** gyda charfan o fyfyrwyr peirianeg ail flwyddyn. Gweithiodd y myfyrwyr mewn paruau o grwpiau bychain (2-3 i bob grŵp) er mwyn archwilio **dau neu dri o weithgareddau o'r Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Cynhwysol**. Cawsant eu hannog i drafod pob gweithgaredd gyda'i gilydd, adnabod pwyntiau dysgu allweddol, ac adfyfrio ar sut roedd y mewnwediadau yma yn cysylltu gyda'u taith gyflogadwyedd.

Deilliannau a Thraweffaith

Bu i un gweithgaredd yn arbennig, [Gweithgaredd E: Dyrchafu gwelededd](#) (gan ffocysu ar gyfathrebu, y defnydd o iaith a'i ddylanwad) symbylu ymgysylltiad cryf gan y myfyrwyr. Drwy'r gweithgaredd hwn, fe wnaeth myfyrwyr ennill gwerthfawrogiad o **godio iaith** a goblygiadau hynny ar gyfer cynhwysiant mewn recriwtio.

Bu i fyfyrwyr gymhwyso'r dysgu hwn drwy ddod o hyd i **hysbysebion swyddi go iawn** a'u profi gan ddefnyddio adnodd datgodiad rhywedd. Roedd eu canfyddiadau'n adlewyrchu stereopteipiau hirymarhaus o fewn iaith recriwtio:

- Roedd hysbysebion swyddi/ swydd ddisgrifiadau fel arfer wedi'u **codio ar gyfer gwrywod**.
- Roedd hysbysebion swyddi/ swydd ddisgrifiadau swydd dysgu blynyddoedd cynnar/meithrin fel arfer wedi'u **codio ar gyfer menywod**.

Trafododd y grŵp sut roedd y gwahaniaethau yma wedi codi yn hanesyddol a'r traweffaith sydd gan iaith o'r fath ar atgyfnerthu arwahanu galwedigaethol. Roedd y sesiwn hefyd yn cynhyrchu **argymhellion wrth edrych ymlaen**, gyda myfyrwyr yn awgrymu y gallai gwell ymwybyddiaeth ac arferion recriwtio wedi'u diweddarau:

- Annog mwy o fenywod i ystyried gyrfaoedd peirianeg.
- Hyrwyddo mwy o gydraddoldeb a chynhwysiant rhywedd ar draws y proffesiynau.

Roedd y gweithgaredd yma'n cefnogi myfyrwyr i:

- Ymgysylltu'n feirniadol gydag arferion yn y gweithle.
- Cysylltu dysgu o'r pecyn cymorth gyda **phroblemau cyflogadwyedd yn y byd go iawn**.

Pecyn Cymorth ar y cyd gyda'r Prosiect Capstone

Lefel 5

Datblygwyd Gan: Adil Imam, Canterbury Christ Church University (CCCU)

Astudiaeth Achos o'r Sesiwn

Cafodd y sesiwn ei hwyluso gan **Adil Imam** gyda charfan o fyfyrwyr peirianeg ail flwyddyn sy'n cymryd eu **modiwl Prosiect Capstone Project**. Mae'r Prosiect Capstone yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyfyrwyr weithio ar y cyd er mwyn dod **o hyd, dylunio, rhoi ar waith a gweithredu** datrysiad peirianeg i broblem y daethpwyd o hyd iddi o fewn diwydiant. Ochr yn ochr gyda darparu prosiect technegol, mae gofyn i fyfyrwyr arddangos **ymarfer adfyfyriol unigol** ar eu sgiliau technegol a chyflogadwyedd.

Fel rhan o'r modiwl, fe wnaeth sesiwn wedi'i hamserlennu gyflwyno myfyrwyr i **Gweithgaredd J: Adfyfyrio a Thyfu** o'r Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Cynhwysol. Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i alinio'n agos gyda **Nodau Rhaglenni Addysg Uwch Cyngor Peirianwyr Prydain (AHEP 4)** a **Manyleb y DU** (Safon y DU ar gyfer Cymhwysedd Peirianeg Broffesiynol), sy'n amlinellu'r safonau cymhwysedd a'r ymrwymiad sy'n ofynnol ar gyfer cofrestriad proffesiynol fel:

- Peiriannydd Siartredig (CEng)
- Peiriannydd Corfforedig (LEng)
- Technegydd Peirianyddol (EngTech)

Deilliannau a Thraweffaith

Bu i'r sesiwn alluogi myfyrwyr i:

- Hunanasesu'n feirniadol eu **sgiliau technegol a chyflogadwyedd** a ddatblygwyd drwy Brosiect Capstone.
- Cymhwyso ymarfer adfyfyriol fel adnodd ar gyfer **datblygiad personol a phroffesiynol**.
- Cydnabod eu cynnydd wrth ddod yn **beiriannydd cynhwysol**, gan gyfuno cryfderau technegol a chyflogadwyedd.

Adroddodd myfyrwyr bod y gweithgaredd yn eu hannog hwy i weld eu datblygiad mewn **golau cadarnhaol** tra hefyd yn adnabod meysydd ar gyfer twf parhaus. Roedd yn darparu cysylltiad eglur rhwng eu gwaith academiaidd, eu hymarfer proffesiynol ac uchelgeisiau o ran gyrfa yn y dyfodol fel peirianwyr proffesiynol.

Ceisiadau Graddedigion

Datblygwyd Gan: Adil Imam, Canterbury Christ Church University (CCCU)

Astudiaeth Achos o'r Sesiwn

Cafodd y sesiwn hon ei hwyluso gan **Adil Imam** gyda charfan o fyfyrwyr peirianeg ar eu blwyddyn olaf. Cafodd ei amseru i gyd-fynd gyda'r cyfnod prysuraf ar gyfer ceisiadau swyddi peirianwyr graddedig (Medi- Hydref), pan oedd BBaCh a sefydliadau corfforaethol mawr yn dechrau hysbysebu am swyddi graddedigion.

Cafodd y sesiwn ei darparu fel **astudio wedi'i hunangyfarwyddo**, gyda myfyrwyr yn cael eu harwain i ymgysylltu gyda gweithgareddau a ddetholwyd o'r Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Cynhwysol:

- **Gweithgaredd A: Cyflwyniad i EDI** – gwerthfawrogi gwybodaeth a sgiliau cynhwysol.
- **Gweithgaredd B: Ymgeisio ar gyfer Swyddi** – canllawiau ar CVau, llythyrau cais, a cheisiadau.
- **Gweithgaredd C: Bod yn Barod ar gyfer Cyfweliad!** – deall y broses recriwtio graddedigion.
- **Gweithgaredd D: Lleisiau Newid** – clywed gan fodelau rôl cyfoedion er mwyn magu hyder.
- **Gweithgaredd J: Adfyfrio a Thyfu** – adfyfrio ar gyflogadwyedd a sgiliau technegol, gan adeiladu ar ddysgu o'r modiwl Prosiect Capstone.

Deilliannau a Thraweffaith

- **Adeiladu hyder:** Roedd gwylio fideos gan gyfoedion yn **Gweithgaredd D** wedi helpu myfyrwyr i adfyfrio ar eu cryfderau eu hunain a chwalu rhwystrau meddyliol a oedd yn flaenrol wedi cyfyngu ar eu hunan-ganfyddiad. Dechreuodd myfyrwyr **werthfawrogi eu hunain a'u potensial** yn llawnach.
- **Cydnabod sgiliau trosglwyddadwy:** Fe wnaeth **Gweithgaredd D** ddangos sut wnaeth cyfoedion adnabod y gallai **eu sgiliau technegol a chyflogadwyedd** gael eu cymhwyso ar draws ystod eang o rolau, galwedigaethau a phroffesiynau peirianeg.
- **Bod yn barod i ymgeisio:** Fe wnaeth **Gweithgaredd B** a **Gweithgaredd C** helpu myfyrwyr i ddeall yr **iaith a'r safbwynt** sydd eu hangen wrth gyflwyno eu hunain i gyflogwyr mewn ceisiadau, CVau, a chyfweliadau.

- **Ymarfer cynhwysol:** Fe wnaeth [Gweithgaredd A](#) annog myfyrwyr i gydnabod eu gwybodaeth a'u sgiliau cynhwysol fel rhan hanfodol o gymhwysedd peirianeg broffesiynol.
- **Twf adfyfyriol:** Gwelwyd bod ailymweld â [Gweithgaredd J](#) yn cyfuno dysgu o gamau cynharach y rhaglen, gan alluogi myfyrwyr i werthuso sut mae eu sgiliau technegol, cynhwysol a chyflogadwyedd wedi datblygu yn ystod eu cwrs gradd.

Roedd traweffaith cyfunol y gweithgareddau hyn yn cefnogi myfyrwyr i ddod yn **beirianwyr sy'n barod ar gyfer gyrfa**, sy'n gallu mynegi eu sgiliau a'u cymwyseddau'n effeithiol i ddarpar gyflogwyr.

Bod yn Gynghreiriad Graddedig yn y Gweithle

Datblygwyd Gan: Ellie Martin, Canterbury Christ Church University (CCCU)

Astudiaeth Achos o'r Sesiwn

Cafodd y sesiwn ei hwyluso gan Ellie Martin gyda charfan o 25 o fyfyrwyr blwyddyn olaf (Lefel 6), ochr yn ochr gyda chyflogwyr a gweithwyr peirianeg, yn y Digwyddiad Dathlu a Chyflwyno Poster Prosiect Capstone Blwyddyn Olaf. Nod y gweithdy oedd dyfnhau dealltwriaeth cyfranogwyr o gynghreirio drwy gêm ryngweithiol yn archwilio microymosodiadau yn y gweithle.

Roedd pob un o'r pum bwrdd fel arfer yn cynnwys 4-5 myfyriwr a 2-3 cyflogwyr. Roedd pob grŵp yn gweithio'n gydweithredol drwy fersiwn bapur o'r **Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Cynhwysol** [Gweithgaredd I: EDI Quest](#) – **Y Gêm EDI** ([Atodiad D](#)).

Gofynnwyd i grwpiau drafod pob senario yn ei dro a phenderfynu ar y cyd ar weithredoedd priodol - naill ai o'r opsiynau a ddarparwyd yn y gêm neu drwy awgrymu un eu hunain. Elfen allweddol o'r gweithgaredd oedd sicrhau bod gan fyfyrwyr a chyflogwyr fel ei gilydd lais cyfartal, gan annog dysgu symbiotig a mentora dwyochrog.

Pan ddaeth y gweithgaredd i ben, aeth bob grŵp ati i adnabod pwynt dysgu allweddol gan adfyfrio ar sut y gallent gymhwyso eu mewnwelediadau er mwyn dod yn gynghreiriaid cryfach yn y gweithle.

Deilliannau a Thraweffaith

Roedd myfyrwyr a chyflogwyr fel ei gilydd yn gwerthfawrogi natur gydweithredol y sesiwn, gan nodi'r cyfleoedd ar gyfer dysgu dwyochrog. Dywedodd un disgybl:

"...mae sefyllfaoedd fel hyn yn dda oherwydd mae'n sgwrs mor galed i'w chael, neu drafodaethau na fyddem byth yn eu cael oddi allan i'r amgylchedd hwn oni bai ei fod yn digwydd..." - Myfyriwr A World Café

Myfyriodd un cyflogwr:

"Mi alla i eich sicrhau chi pe baech chi'n llenwi ystafell gyda chant o reolwyr, y byddai'n well gan bob un ohonynt ysgrifennu achos busnes ... na delio gyda'r stwff heriol yma..." Cyflogwyr A World Café

Roedd yr adborth hwn yn tanlinellu pwysigrwydd meithrin cynghreiriaid a mabwysiadu arferion mentora dwyochrog (Fanusie et al., 2023). Roedd hefyd yn arddangos potensial y Pecyn Cymorth Cyflogadwyedd Cynhwysol fel adnodd EDI gwerthfawr. Gall ymgorffori'r gêm cynghreirio yn rhan o weithgareddau dysgu cyflogadwyedd helpu myfyrwyr i ddatblygu gwerthfawrogiad dyfnach o EDI, gan adleisio ymchwil blaenorol y

gall gemau fideo wella dysgu (Wulansari et al., 2020) a meithrin empathi (Viches et al., 2023).

Gan hynny, mae gan Becyn Cymorth Cyflogadwyedd Cynhwysol - [Gweithgaredd 1: EDI Quest – Gêm EDI](#) y potensial i yrru newid diwylliannol ac ymddygiadol mewn gweithleoedd.

Cyfeiriadau

- Fanusie, C., Nortcliffe, A., Matei, G., Makinde, M., Rashid, F., Eyres, S., a McBright, M. (2023). *Student Requirements for EDI Engineering Employability Learning Toolkit*. UK&IE Research Network Symposium, University of Warwick, 31ain Mai–1af Mehefin 2023.
